

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU (Archwiliadau Safle)

3 Gorffennaf 2017

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

(Archwiliad Safle: 10.00 a.m. – 10.35 a.m.)

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Mr A Archer, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd M James, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. NP/17/0229/S73 - Amrywio amod rhif. 2 o NP/15/0526/FUL – newidiadau i'r clwb – Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr, Dinbych-y-pysgod

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan eu hatgoffa mai amcan y cyfarfod y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i gyfarwyddo eu hunain â safle'r cais a dim mwy na hynny. Ni fyddid yn penderfynu dim nes y byddai'r ceisiadau cynllunio'n cael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Adroddwyd bod yr Aelodau yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2017 wedi penderfynu gohirio'r cais a nodir uchod er mwyn trefnu ymweliad safle. Amlinellwyd y cais gan y swyddog gan gyfeirio at y cynnydd o 20cm yn uchder yr adeilad a thynnu sylw at leoliad y balconi llawr cyntaf ynghyd â'r grisiau allanfa dân. Aeth y Pwyllgor yn ei flaen wedyn i du blaen yr adeilad lle'r oedden nhw'n medru gweld, trwy ddrws agored, yr hytrawstiau oedd eu hangen i gynnal llawr uwch yr adeiledd ac a oedd wedi gorfodi'r uchder ychwanegol. Roedd wal ffin y safle a godwyd yn lle'r clawdd, ac a oedd yn fater gorchymyn gorfodaeth ar wahân, hefyd i'w gweld.

Eglurodd y swyddog mai cyflwyno cais Diwygiad Heb-Effeithio oedd wedi tynnu sylw'r cymdogion at y cynnydd yn uchder y Clwb. Esboniodd y swyddogion hefyd fod y clawdd wedi'i waredu am iddo gael ei ddifrodi yn ystod y gwaith adeiladu. Ond roedden nhw o'r farn fod uchder y wal oedd yno yn lle'r clawdd yn ddigonol i gynnal preifatrwydd ffordd fynediad drws nesaf. Deallwyd bod trafodaethau ynghylch rendro'r wal oedd yn wynebu'r cymdogion yn dal ar y gweill rhwng yr ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr.



3. NP/17/0258/FUL – Cadw 35 safle llawr caled a phwyntiau cyswllt trydan; newid defnydd dros dro o'r adeilad presennol fel siop sglodion a physgod; defnyddio'r caban symudol fel swyddfa dderbynfa dros dro – Buttyland Caravan & Camping Park, Maenorbŷr

I droi at yr ail gais ar y safle a oedd hefyd wedi'i ohirio yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2017 er mwyn galluogi trefnu ymweliad safle fe amlinellodd y swyddog fanylion y cais drachefn. Esboniodd, er bod caniatâd wedi'i ofyn am newid defnydd dros gyfnod o dair blynedd o'r siop pysgod a sglodion a chadw'r caban symudol, argymhelliad yr adroddiad gerbron y Pwyllgor oedd caniatâd am flwyddyn yn unig o ddyddiad y caniatâd. Argymhellwyd amodau hefyd o ran derbyn manylion y systemau echdynnu yn y gegin o fewn mis; cyflwyno strategaeth goleuo allanol; cyfyngu oriau agor y siop pysgod a sglodion; draenio dŵr wyneb a chynllun i ddangos deunyddiau amgen ar gyfer y lloriau caled ynghyd â chynllun lliw i'r gorchudd pwyntiau cyswllt trydan, yn ogystal ag amserlen gweithredu, o fewn mis o ddyddiad y caniatâd.

Ar ôl gweld adeilad y dderbynfa a'r siop pysgod a sglodion symudodd yr Aelodau wedyn i'r cae gogleddol lle gofynnid am y lloriau caled a'r gorchuddion pwyntiau cyswllt trydan a nodwyd hyn.

Wrth ddiolch i'r Aelodau am eu presenoldeb terfynodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy ddweud mai'r tebygolrwydd oedd y byddai'r ddau gais yn cael eu hail-gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w penderfynu.

